




TAKING OVER MUSEUMS 2014 REPORT
ADRODDIAD MEDDIANNU AMGUEDDFEYDD 2014



REPORT CONTENTS**CYNNWYS YR ADRODDIAD****PAGE / TUDALEN**

Introduction	Cyflwyniad	2
Participation	Cyfranogaeth	3-5
Promoting Equality	Hybu Cydraddoldeb	6-12
Support & Resources	Cefnogaeth ac Adnoddau	13-14
Summary	Crynodeb	15
Recommendations	Argymhellion	16

TAKING OVER MUSEUMS DAY

INTRODUCTION

Taking Over Museums is a day on which young people are offered a unique experience of being in charge in a museum, gallery, archive, heritage site or historic home, working alongside staff and being given meaningful roles for the day. Children participate fully in the work of the museum, making decisions and providing valuable contributions.

The third Taking Over Museums Day was held on 13th November 2014 and was organised by Kids in Museums, an independent charity dedicated to making museums open and welcoming to all families, children and young people, in particular those who haven't visited before. With a dedicated Board of Trustees and an exciting range of events, partnerships and initiatives, Kids in Museums gives families, young people and children visiting museums and galleries across Britain a dynamic and powerful voice.

The project was funded by CyMAL: Museums Archives and Libraries Wales.

Kids in Museums recorded information about the events and activities that took place. Feedback from participating organisations, schools and children was gathered via surveys and interviews. A school consultation report was commissioned to investigate how to involve schools more effectively and this report includes reference to findings and recommendations from that consultation with museums and teachers.

DIWRNOD MEDDIANNU AMGUEDDFEYDD

CYFLWYNIAD

Mae'r Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd yn ddiwrnod pan gynigir y profiad unigryw i bobl ifanc o fod yn gyfrifol am amgueddfa, oriel, archifdy, safle treftadaeth neu gartref hanesyddol, gan weithio ochr yn ochr â'r staff a chael rolau pwysig i'w gwneud am y diwrnod. Mae'r plant yn cyfranogi'n llawn yng ngwaith yr amgueddfa, gan wneud penderfyniadau a chyfraniadau gwerthfawr.

Cynhaliwyd y trydydd Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd ar Dachwedd 13eg 2014 a chafodd ei drefnu gan Kids in Museums, elusen annibynnol sydd wedi ymrwymo i wneud amgueddfeydd yn fannau agored a chroesawgar i bob teulu, plentyn a pherson ifanc, yn arbennig y rheiny sydd heb ymweld o'r blaen. Gyda Bwrdd Ymddiriedolwyr ymroddedig ac amrywiaeth cyffrous o ddigwyddiadau, partneriaethau a mentrau, mae Kids in Museums yn rhoi llais deinamig a phwerus i deuluoedd, pobl ifanc a phlant sy'n ymweld ag amgueddfeydd ac orielau ledled Prydain.

Ariannwyd y prosiect gan CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Cymru.

Cofnododd Kids in Museums wybodaeth am y digwyddiadau a'r gweithgareddau ar y diwrnod a chasglwyd adborth gan sefydliadau, ysgolion a phlant a gymerodd ran drwy arolygon a chyfweliadau. Comisiynwyd adroddiad ymgynghoriad ag ysgolion i archwilio sut i gynnwys ysgolion yn fwy effeithlon ac mae'r adroddiad yma'n cynnwys cyfeiriad at ganfyddiadau ac argymhellion o'r ymgynghoriad hwnnw gydag amgueddfeydd ac athrawon.

38 MUSEUMS, GALLERIES
& ARCHIVES

1025 CHILDREN AND
YOUNG PEOPLE

Percentage increase on the previous year of 35% in museums and 45% in participants.

The significant increase in both the number of venues and children participating may be due to the flexible nature of the project which encourages museums to take part and allows them to expand their plans to accommodate more children. Kids in Museums advises and supports organisations to plan their Taking Over Museums events to suit their individual needs and annual programme. As a result, activities took place over a longer period this year – children were involved on and around Taking Over Museums Day, but also in the months leading up to the event and afterwards. In almost half of cases, children made multiple visits to the museum as part of their Taking Over Museums experience. The number of museums who were planning to continue working with their group also increased from last year. Kids in Museums actively encourages museums to think of Taking Over Museums as #morethanaday.

'The group have continued to develop a gallery exhibition based on the work undertaken before and during Taking Over Museums Day.'

'We intend to continue to consult with the group as we develop content for the new galleries and buildings that are going up.'

'The plan is for the group of students to return for one day in the Spring and carry out educational exercises and a tour of the castle with local school groups.'

38 O AMGUEDDFEYDD,
ORIELAU AC ARCHIFAU

1025 O BLANT A PHOBL
IFANC

O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol cafwyd cynnydd o 35% mewn amgueddfeydd a chynnydd o 45% mewn cyfranogwyr.

Efallai mai'r rheswm am y cynnydd mawr yn y nifer o safleoedd a phlant a gymerodd ran oedd y ffaith fod y prosiect yn hyblyg a bod hynny'n annog amgueddfeydd i gymryd rhan ac yn gadael iddyn nhw ehangu eu cynlluniau i gymryd mwy o blant. Mae Kids in Museums yn cynghori ac yn cefnogi sefydliadau i gynllunio eu digwyddiadau Meddiannu Amgueddfeydd i gyfateb â'u rhaglen flynyddol a'u hanghenion unigol. O ganlyniad, cafwyd gweithgareddau dros gyfnod hirach eleni – roedd y plant yn cymryd rhan ar Ddiwrnod Meddiannu Amgueddfeydd ac ar y diwrnodau cynt ac wedyn, ond roeddent yn cyfranogi hefyd yn y misoedd oedd yn arwain at y digwyddiad a'r misoedd wedyn. Ymron hanner yr achosion, aeth y plant ar ymweliadau niferus i'r amgueddfa yn rhan o'u profiad Meddiannu Amgueddfeydd. Cynyddodd y nifer o amgueddfeydd oedd yn bwriadu parhau i weithio gyda'u grŵp hefyd ers y llynedd. Mae Kids in Museums yn annog amgueddfeydd i ystyried Meddiannu Amgueddfeydd fel rhywbeth #mwynadiwrnod.

'Mae'r grŵp wedi parhau i ddatblygu arddangosfa yn yr oriel ar sail y gwaith a wnaethent cyn ac yn ystod y Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd.'

'Rydym yn bwriadu parhau i ymgynghori â'r grŵp wrth i ni ddatblygu cynnwys ar gyfer orielau newydd ac adeiladau sy'n cael eu codi.'

'Y cynllun yw bod y grŵp o fyfyrwyr yn dychwelyd am ddiwrnod yn y Gwanwyn ac yn gwneud ymarferion addysgol a thaith o amgylch y castell gyda grwpiau ysgol lleol.'

There was good take up across the whole of Wales, particularly on the North coast and across the South coast, reflecting the density of museums in these areas. Different types of museum were well represented; all Wales' national museums participated and at least five Cadw sites took part this year. It is pleasing that many independent museums have understood the value in taking part as their charging policy has been cited as a barrier in the past.

'We wanted to gain a young person's perspective on what they would like to see represented in a museum, that's our fundamental aim.'

'We did it last year and absolutely loved it. Before, some staff were a little wary and apprehensive, but this year there has been no resistance, everyone has been so keen to take part again.'

museums SAID

Teen Twitter Takeover

Five museums took part in the first Teen Twitter Takeover in August. Young people took over the museum's twitter feed for the day, raising awareness of their work with the museum and encouraging other museums to involve young people. A record of young people's involvement can be found here: <https://storify.com/takeovermuseums/teen-twitter-takeover-wales-27th-august-2014> More young people went on to take over social media in other museums later in the year.

*'Right then, we **#teens** are now signing off. We've all had a great **#takeoverday @wrexhammuseums** creating a display ready for next month!'*

Cymerwyd y cyfle gan nifer dda drwy Gymru gyfan, yn arbennig ar yr arfordir Gogleddol ac ar draws arfordir y De, gan adlewyrchu mor niferus yw'r amgueddfeydd yn yr ardaloedd yma. Roedd cynrychiolaeth dda o wahanol fathau o amgueddfeydd; bu amgueddfeydd cenedlaethol Cymru gyfan yn cymryd rhan eleni ynghyd ag o leiaf bump o safleoedd Cadw. Mae'n bleser gweld fod cymaint o amgueddfeydd annibynnol wedi deall beth yw manteision cymryd rhan am eu bod wedi cyfeirio at eu polisi codi ffi fel rhwystr yn y gorffennol.

'Roeddem eisiau canfod safbwynt y bobl ifanc am yr hyn y byddent yn hoffi ei weld mewn amgueddfa, dyna ein nod sylfaenol.'

'Roeddem wedi gwneud hyn y llynedd ac wedi mwylhau'n ddi-ben-draw. O flaen llaw, roedd rhai o'r staff ychydig yn bryderus ac yn ansicr, ond eleni ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad, mae pawb wedi bod mor awyddus i gymryd rhan eto.'

MEDDAI'R amgueddfeydd

Pobl Ifanc yn Meddiannu'r Trydar

Bu pump o amgueddfeydd yn cymryd rhan yn y gweithgaredd Pobl Ifanc yn Meddiannu'r Trydar ym mis Awst. Bu pobl ifanc yn meddiannu porthiant trydar yr amgueddfa am y diwrnod, gan roi gwybod i lawer mwy o bobl am eu gwaith gyda'r amgueddfa ac annog amgueddfeydd eraill i gynnwys pobl ifanc. Gallwch weld cofnod o gyfranogaeth y bobl ifanc yma: <https://storify.com/takeovermuseums/teen-twitter-takeover-wales-27th-august-2014> Aeth mwy o bobl ifanc i feddiannu'r cyfryngau cymdeithasol mewn amgueddfeydd eraill yn hwyrach yn y flwyddyn.

*'lawn, dyma ni **#teens** yn dweud hwyl fawr. Rydym wedi cael **#takeoverday @wrexhammuseums** gwych yn creu arddangosfa'n barod ar gyfer mis nesaf!'*

Breakdown of venue types

27%	Local Authority Museum
19%	National Museum
13%	Cadw
13%	Independent Museum
8%	Multiple
5%	Regimental Museum
3%	Archive
3%	Art Centre
3%	National Trust
3%	Science Venue
3%	Didn't answer

Participation aims for this year were to encourage:

- new museums to take part
 - 16 new museums did so
- venues to work with Communities First groups
 - 11 did so

Manylion y mathau o safleoedd

27%	Amgueddfa Awdurdod Lleol
19%	Amgueddfa Genedlaethol
13%	Cadw
13%	Amgueddfa Annibynnol
8%	Niferus
5%	Amgueddfa Gatrodol
3%	Archifau
3%	Canolfan Gelfyddyd
3%	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
3%	Safle Gwyddonol
3%	Heb ateb

Yr amcanion o ran cyfranogaeth eleni oedd annog:

- amgueddfeydd newydd i gymryd rhan
 - daeth 16 o amgueddfeydd newydd
- safleoedd i weithio gyda grwpiau Cymunedau yn Gyntaf
 - gwnaeth 11 ohonynt hynny

PROMOTING EQUALITY

In previous years we have identified the benefits to museums, participants and visitors of the project. This year, we looked in more detail at how Taking Over Museums promotes equality by helping children to overcome the effects of disadvantage in their lives e.g. social, economic, physical.

I. More children and young people have been introduced to museums

Children from two Taking Over Museums events completed surveys several months after their experience. In both classes, fewer than 50% of children said they visited a museum more than once a year. For 43% of the children surveyed, Taking Over Museums Day was the first time they had ever visited a museum. 100% of children said that they had enjoyed their experience. Of those that had visited museums before, 75% said they enjoyed their Taking Over Museums visit more than other museums they had visited.

'After today it would really encourage me to go to more museums.' Kirstin, age 14

'I have never actually been to a museum before but this makes me want to go to more.' Erin, age 13

The project has clearly been highly successful in introducing children who do not usually visit museums to a new environment in a very positive way.

Museums told us that 60% of the children who took part in Taking Over Museums had not previously visited their museum with their school or group. At least 25% of museums had not worked with that school or group in the past (15% were unsure so this figure could be even higher). Museums used the opportunity to invite different types of people to visit:

'It was great to work with a teenage group as most of our school visitors to the museum are of primary age.'

HYBU CYDRADDOLDEB

Mewn blynyddoedd blaenorol rydym wedi canfod beth yw'r manteision i amgueddfeydd, cyfranogwyr ac ymwelwyr â'r prosiect. Eleni roeddem yn edrych yn fanylach ar y ffordd mae Meddiannu Amgueddfeydd yn hybu cydraddoldeb drwy helpu plant i ymdopi gydag effeithiau anfanteision yn eu bywydau e.e. cymdeithasol, economaidd, corfforol.

I. Mae mwy o blant a phobl ifanc wedi cael eu cyflwyno i amgueddfeydd

Aeth plant o'r ddau ddigwyddiad Meddiannu Amgueddfeydd ati i gwblhau arolygon fisoedd lawer ar ôl eu profiad. Yn y ddau achos, dywedodd llai na 50% o'r plant eu bod yn ymweld ag amgueddfa lai nag unwaith y flwyddyn. I 43% o'r plant a atebodd, y Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd oedd y tro cyntaf erioed iddyn nhw ymweld ag amgueddfa. Dywedodd 100% o'r plant eu bod wedi mwynhau eu profiad. O'r rheiny oedd wedi ymweld ag amgueddfa o'r blaen, dywedodd 75% eu bod wedi mwynhau eu hymweliad Meddiannu Amgueddfa fwy nag unrhyw amgueddfa roeddent wedi bod iddi o'r blaen.

'Ar ôl heddiw, byddaf eisiau mynd i fwy o amgueddfeydd.' Kirstin, 14 oed

'Dydw i erioed wedi bod mewn amgueddfa o'r blaen ond mae hyn yn gwneud i mi fod eisiau mynd fwy.' Erin, 13 oed

Mae'n amlwg bod y prosiect yn llwyddiant ysgubol o ran cyflwyno plant nad ydynt yn mynd i amgueddfeydd fel arfer i amgylchedd newydd mewn ffordd bositif iawn.

Dywedodd yr amgueddfeydd wrthym fod 60% o'r plant a gymerodd ran mewn Meddiannu Amgueddfeydd heb fod i amgueddfa gyda'u hysgol neu grŵp o'r blaen. Roedd o leiaf 25% o amgueddfeydd heb weithio gyda'r ysgol honno neu'r grŵp hwnnw o'r blaen (roedd 15% yn ansicr felly gallai'r ffigur yma fod hyd yn oed yn uwch). Defnyddiodd yr amgueddfeydd y cyfle i wahodd gwahanol fathau o bobl i ymweld:

'Roedd hi'n grêt gweithio gyda grŵp o bobl ifanc am fod y mwyafrif o'n hymwelwyr ysgol o oedran cynradd.'

2. Museums worked with new partners and through different support agencies to understand the needs of and make contact with specific audiences

The recent 'Culture and Poverty' report by Baroness Kay Andrews OBE recommends:

*'Cultural organisations to embed approaches to **make their own institutions more community and child-friendly** by way of initiatives such as the 'Taking Over' model, pioneered by Kids in Museums.'*

Kids in Museums found ways to support the development of Taking Over Museums in Communities First areas, including:

- Identifying and making contact with Cluster Managers
- Identifying museums within those areas and actively encouraging them to participate in Taking Over Museums
- Linking venues with schools through Communities First to form new partnerships

Nearly a third of all the museums involved chose to work with a group from a Communities First area, demonstrating their awareness of how significant museum experiences can be to children facing economic disadvantage. Many museums reached out to groups through their local Communities First Co-ordinator, forming new partnerships with these contacts and strengthening existing ones. Other museums used local data to determine a school to approach.

'They are a school where 20% or more of children are in receipt of free school meals – this is an indicator of part of our targeted work as part of the child poverty agenda.'

When asked about why they had worked with their particular group, it was obvious that many museums want to understand children and young people better, improve their offer for them and encourage them to use their services. Taking Over Museums is different to a normal school offer and as such it creates a reason for museums and schools / young people's groups to talk to each other. Conversations about how the event can be organised to support the group and particular students within it lead to better mutual understanding.

2. Gweithiodd yr amgueddfeydd gyda phartneriaid newydd a thrwy wahanol asiantau cefnogi i ddeall anghenion a chysylltu gyda chynulleidfaoedd penodol

Mae'r adroddiad 'Diwylliant a Thlodi' diweddar gan y Farwnes Kay Andrews OBE yn argymhell:

*'Bod sefydliadau diwylliannol yn cynnwys agweddau i **wneud eu sefydliadau eu hunain yn fwy croesawgar i blant a'r gymuned** drwy fentrau megis y model 'Meddiannu', wedi'i arloesi gan Kids in Museums.'*

Llwyddodd Kids in Museums i ganfod ffyrdd o gefnogi datblygiad Meddiannu Amgueddfeydd mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, yn cynnwys:

- Pennu a chysylltu gyda Rheolwyr Clwstwr
- Canfod amgueddfeydd o fewn yr ardaloedd hynny a'u hannog nhw'n frwd i gyfranogi mewn Meddiannu Amgueddfeydd
- Cysylltu safleoedd gydag ysgolion drwy Cymunedau yn Gyntaf i ffurfio partneriaethau newydd

Roedd bron i draean yr amgueddfeydd a gymerodd ran wedi dewis gweithio gyda grŵp o ardal Cymunedau yn Gyntaf, gan ddangos eu bod yn gwybod mor arwyddocaol yn aml iawn yw profiadau mewn amgueddfa i blant sy'n wynebu anfantais economaidd. Estynnodd nifer o amgueddfeydd groeso i grwpiau drwy eu Cydlynnydd Cymunedau yn Gyntaf lleol, gan ffurfio partneriaethau newydd gyda'r cysylltiadau yma a chryfhau rhai oedd yn bodoli'n barod. Defnyddiodd amgueddfeydd eraill ddata lleol i benderfynu pa ysgolion i gysylltu â nhw.

'Mae'n ysgol lle mae 20% neu fwy o'r plant yn derbyn pryduau ysgol rhad ac am ddim – mae hwn yn ddangosydd yn y rhan hwnnw o'n gwaith wedi'i dargedu sy'n rhan o'r agenda tlodi plant.'

Pan ofynnwyd iddynt pam roeddent wedi gweithio gyda'u grŵp penodol nhw, roedd hi'n amlwg bod llawer o amgueddfeydd eisiau deall plant a phobl ifanc yn well, gwella'r hyn maent yn ei gynnig iddynt a'u hannog i ddefnyddio eu gwasanaethau. Mae Meddiannu Amgueddfeydd yn wahanol i gynnig arferol ysgol ac felly mae'n rhoi rheswm i amgueddfeydd ac ysgolion / pobl ifanc siarad â'i gilydd. Gellir trefnu sgysiau ynglŷn â sut i drefnu'r digwyddiad er mwyn cefnogi'r grŵp a myfyrwyr arbennig o fewn y grŵp i arwain at well dealltwriaeth o'i gilydd.

Museums told us what they had learnt from the experience and what the most positive outcomes for them were. Overwhelmingly their responses were to do with a realisation of both the value of young people to their organisation and the potential of their museum to interest young people. Museums were surprised at the level of interest children took in their collections and were appreciative of the insight they provided. These positive experiences renew museums' commitment to working alongside young people and creating more opportunities for all children and young people.

Soniodd yr amgueddfeydd am y pethau roeddent wedi'u dysgu o'r profiad a beth oedd y canlyniadau mwyaf positif iddynt. Yn llawer amlach na pheidio roeddent wedi sylweddoli mor werthfawr yw pobl ifanc i'w sefydliad a'r potensial sydd gan eu hamgueddfa i fod o ddiddordeb i bobl ifanc. Roedd yr amgueddfeydd wedi synnu faint o ddiddordeb oedd gan blant yn eu casgliadau ac roeddent yn gwerthfawrogi'r sylwadau a'r syniadau oedd ganddynt. Mae'r profiadau newydd yma'n adnewyddu ymrwymiad yr amgueddfeydd i weithio ochr yn ochr â phobl ifanc a chreu mwy o gyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc.

'I think we learned that regardless of background or physical and mental capabilities, young people simply need the opportunity to become involved in society and community projects in order to show their potential.'

'That they are passionate about the service we provide and that they can provide an insight into the perspective of young people on what we have to offer. They are open to being a part of our community and want to take part.'

'Giving the youngsters a voice to express their views.'

museums SAID

'Dw i'n meddwl ein bod wedi dysgu mai'r cwbl sydd ei angen ar bobl ifanc, beth bynnag fo eu cefndiroedd neu alluoedd meddyliol a chorfforol, yw'r cyfle i ddod yn rhan o brosiectau cymdeithasol a chymunedol er mwyn dangos eu potensial.'

'Eu bod yn hynod o frwdfrydig am y gwasanaeth a ddarparwn a'u bod yn gallu rhoi cipolwg i ni ar y ffordd mae pobl ifanc yn gweld yr hyn sydd gennym i'w gynnig. Maent yn agored i fod yn rhan o'n cymuned ac maent eisiau cymryd rhan.'

'Rhoi llais i'r rhai ifanc i fynegi eu barn.'

MEDDAI'R amgueddfeydd

3. Events were inclusive and helped remove barriers

Three-quarters of museums were aware of specific factors within their group which may have caused the children to be disadvantaged in some way. These included physical disability, special educational needs, economic disadvantage, ethnic minority and family issues. The most common factor was SEN (63%), followed by economic disadvantage (50%). Many museums noted multiple factors present within their group. When children are dealing with these challenging issues in their lives, being given access to the kind of experiences that Taking Over Museums has been proven to create, can be particularly powerful and meaningful.

'I loved being part of the museum and hearing my words.' Pupil

'This is a group of pupils who, for various reasons, follow an alternative to the mainstream curriculum and who gain a lot from the practical experiences we can offer at the museum.'

The cost of transport can be a barrier to children and young people visiting a museum. Five museums had looked for ways around this issue to enable participants to attend, for example by finding grants and subsidies. Other museums ensured that they had considered appropriate staffing and activities with the support of the teacher or group leader.

3. Roedd y gweithgareddau yma'n gynhwysol ac o gymorth i chwalu rhwystrau

Roedd tri chwarter yr amgueddfeydd yn ymwybodol o ffactorau penodol o fewn eu grŵp a allai fod wedi achosi i'r plant fod dan anfantais mewn rhyw ffordd. Roedd y rhain yn cynnwys anabledd corfforol, anghenion addysgol arbennig, anfantais economaidd, bod yn un o'r lleiafrifoedd ethnig, a phroblemau teuluol. Y ffactor mwyaf cyffredin oedd AAA (63%), wedi'i ddilyn gan anfantais economaidd (50%). Dywedodd nifer o amgueddfeydd bod mwy nag un o'r ffactorau hyn i'w cael yn eu grŵp. Pan fydd plant yn ymdrin â'r materion heriol yma yn eu bywydau, mae cael profiad o'r math o brofiadau y mae Meddiannu Amgueddfeydd yn eu creu yn gallu bod yn arbennig o bwerus ac ystyrlon.

'Roeddwn wrth fy modd yn dod yn rhan o'r amgueddfa a chlywed fy ngeiriau.' Disgybl

'Mae hwn yn grŵp o ddisgyblion sydd, am amrywiol resymau, yn dilyn opsiwn gwahanol i'r cwricwlwm prif ffrwd ac yn elwa'n fawr o'r profiadau ymarferol y gallwn eu cynnig yn yr amgueddfa.'

Gall costau cludiant fod yn rhwystr i blant a phobl ifanc sy'n ymweld ag amgueddfa. Roedd pum amgueddfa wedi chwilio am ffyrdd o osgoi'r broblem yma er mwyn rhoi cyfle i gyfranogwyr fynd yno, er enghraifft drwy ganfod grantiau a chymorthdaliadau. Roedd amgueddfedd eraill yn sicrhau eu bod wedi ystyried staffio a gweithgareddau priodol gyda chefnogaeth yr athro neu arweinydd y grŵp.

4. Children's aspirations have been raised

Research shows that raising children's aspirations is a major factor in them overcoming disadvantage in their lives. We asked museums which of the following opportunities to raise children's aspirations that they felt their event provided.

100%	A positive experience of learning
89%	A positive experience of being in a cultural venue
42%	Develop emotional or personal understanding
68%	Introduce children to new interests and possible careers
42%	Acquisition of language, literacy or numeracy skills
47%	Have their say about an issue
79%	Contribute to a real piece of work
5%	Other

The results show that the types of activity provided through Taking Over Museums have enormous potential impact on participants, helping them to think and act positively about learning, themselves and their future.

'I liked speaking to the men about their accounts from WWII because you get a far better experience than with a textbook.'
Jules, age 13

'After today I either want to work in a museum or be a builder.' Chris, age 12

participants SAID

4. Mae wedi codi lefel dyheadau'r plant

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod codi lefel dyheadau plant yn ffactor pwysig yn y broses o orchfygu anafanteision yn eu bywydau. Aethom ati i ofyn i amgueddfeydd farnu pa rai o'r cyfleoedd a ganlyn i gynyddu dyheadau plant roedd eu digwyddiad nhw wedi'u sicrhau.

100%	Profiad positif o ddysgu
89%	Profiad positif o fod mewn lleoliad diwylliannol
42%	Datblygu dealltwriaeth bersonol neu emosiynol
68%	Cyflwyno plant i ddirordebau newydd a gyrfaedd posibl
42%	Dysgu sgiliau iaith, llythrennedd neu rifedd
47%	Dweud eich barn am fater arbennig
79%	Cyfrannu at ddarn o waith go iawn
5%	Arall

Mae'r canlyniadau'n dangos bod y mathau o weithgareddau a ddarperir drwy Feddiannu Amgueddfeydd yn gallu cael effaith enfawr ar y rhai sy'n cymryd rhan, gan roi cymorth iddynt i ymddwyn ac i feddwl mewn ffordd positif am eu dysgu, amdanynt eu hunain ac am eu dyfodol.

'Fe wnes i fwynhau siarad gyda'r dynion am eu straeon o'r Ail Ryfel Byd oherwydd mae'n brofiad llawer gwell na darllen gwerslyfr.' Jules, 13 oed

'Ar ôl heddiw rydw i naill ai eisiau gweithio mewn amgueddfa neu fod yn adeiladwr.'
Chris, 12 oed

MEDDAI'R cyfranogwyr

In the surveys, children told us about what they had gained from their experience:

	Agree	Disagree
I found that I was good at something	92%	8%
I met new people	86%	14%
I gave my opinion about something	88%	12%
I learnt how to do new things	88%	12%
I helped the museum	98%	2%
I found out about jobs you can do in a museum	90%	10%
I found out about the kinds of things you can do when you visit a museum	98%	2%

It is clear that the impact of Taking Over Museums on children can be felt across multiple areas of their confidence, personal and social skills and learning about the world. In particular, feelings of self-worth amongst children are very high after taking part in the event.

Yn yr arolygon, dywedodd y plant wrthym sut maen nhw wedi elwa o'r profiad:

	Cytuno	Anghytuno
Sylweddolais fy mod yn dda am rywbeth	92%	8%
Cefais gyfarfod pobl newydd	86%	14%
Rhoddais fy marn am rywbeth	88%	12%
Dysgais sut i wneud pethau newydd	88%	12%
Helpais yr amgueddfa	98%	2%
Dysgais am y swyddi y gallwch eu gwneud mewn amgueddfa	90%	10%
Dysgais am y mathau o bethau y gallwch eu gwneud wrth ymweld ag amgueddfa	98%	2%

Mae'n amlwg bod Meddiannu Amgueddfeydd yn cael effaith ar blant mewn pob math o ffyrdd, ar eu hyder, eu sgiliau personol a chymdeithasol, a'u dysgu am y byd. Mae teimladau o hunan-werth yn arbennig ymysg y plant yn uchel iawn ar ôl cymryd rhan yn y digwyddiad yma.

'We feel privileged to design the shelter.'
Millie, age 13

'It's nice to be trusted like a grown-up in a really important place.' Kacey-Jo, age 9

'I'm chuffed that they're using my idea.'
Tyla, age 16

participants SAID

'Roedd hi'n ffrind fawr i ni gael cynllunio'r lloches.' Millie, 13 oed

'Mae'n wych bod rhywun mewn lle mor bwysig yn ymddiried ynoch fel petaech chi'n oedolyn.' Kacey-Jo, 9 oed

'Dw i wrth fy modd eu bod nhw'n defnyddio fy syniad i.' Tyla, 16 oed

MEDDAI'R cyfranogwyr

This account was provided by a teacher attending with her class of primary pupils:

'One child in particular really stood out. In the classroom she very rarely speaks and was in fact very anxious and a bit tearful about the prospect of 'taking over the museum'. I encouraged her to work with two other girls and let them do all the talking, but after about an hour and a half, this little girl wanted to talk to the visitors herself. It wasn't long before she was welcoming visitors and informing them in great detail about the objects on display in the museum and about the history of the museum as well. This was a major breakthrough for this little girl.'

In the surveys, children were asked to say which words described how they felt on Taking Over Museums Day:

94%	Happy
84%	Proud
55%	Busy
45%	Challenged
45%	Nervous
41%	Important
41%	Comfortable
8%	Bored
2%	Frustrated

Although there were some differences between the two classes, i.e. in one class more children said they felt challenged, in the class with younger children more pupils said they felt nervous, what was common across both classes were the very strong feelings of pride and happiness children experienced as a result of their participation. When the key principles of involving children are put into practice, Taking Over Museums is capable of provoking these very positive feelings in children regardless of the specific activity they are undertaking, the museum they are attending or the age of the children taking part.

Rhodddwyd yr hanes yma i ni gan athrawes a ddaeth yma gyda'i dosbarth o ddisgyblion cynradd:

'Cafodd un plentyn yn arbennig brynhawn bythgofiadwy. Yn yr ystafell ddosbarth dydy hi bron byth yn siarad ac roedd hi'n hynod o bryderus ac ychydig yn ddagreuol ynglŷn â'r syniad o 'feddiannu'r amgueddfa'. Anogais hi i weithio gyda dwy ferch arall a gadael iddyn nhw siarad yn ei lle hi, ond ar ôl tua awr a hanner, roedd y ferch fach yma eisiau siarad gyda'r ymwelwyr ei hun. O fewn dim roedd hi'n dechrau croesawu ymwelwyr ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iawn iddynt am y gwrthrychau sy'n cael eu dangos yn yr amgueddfa ac am hanes yr amgueddfa hefyd. Roedd hwn yn gam enfawr i'r ferch fach yma.'

Yn yr arolygon, gofynnwyd i blant ddweud pa eiriau oedd yn disgrifio sut roeddent yn teimlo ar y diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd:

94%	Hapus
84%	Balch
55%	Prysur
45%	Wedi cael sialens
45%	Nerfus
41%	Pwysig
41%	Cyfforddus
8%	Wedi diflasu
2%	Rhwystredig

Roedd rhai gwahaniaethau rhwng y ddau ddosbarth, h.y. mewn un dosbarth dywedodd mwy o blant eu bod wedi cael sialens, yn y dosbarth gyda phlant iau dywedodd mwy o ddisgyblon eu bod yn teimlo'n nerfus. Ond, yr hyn oedd yn gyffredin ar draws y ddau ddosbarth oedd y teimladau cryf o falchder a hapusrwydd a gafodd y plant am eu bod wedi cymryd rhan. O weithredu'r prif egwyddorion sy'n ymwneud â chynnwys plant, mae Meddiannu Amgueddfeydd yn gallu hybu'r teimladau hynod positif yma mewn plant dim ots pa weithgaredd y maent yn ei wneud, pa amgueddfa y maent yn mynd iddi neu oedran y plant sy'n cymryd rhan.

Kids in Museums provides help to museums in planning their events in four areas which were used by museums accordingly:

- the website, with downloadable factsheets, information and templates 74%
- email / phone support from a member of the Taking Over Museums team 95%
- sharing events including workshops and presentations 58%
- printed resources: packs for participants and posters for venues 95%

100% of the help provided was rated 'useful' or 'very useful' by participating museums. In every case, more people rated the support 'very useful' than 'useful'.

The printed resources continue to be well-used; they are also the resource that museums find the most useful – more than 70% rating them 'very useful'. This year fewer museums attended a sharing meeting but more made use of the Kids in Museums team to discuss their plans and get feedback. This may reflect the fact that awareness of the campaign is now very high across the country and some museums who have been involved for several years feel they need support with specific aspects of their planning rather than a full introduction.

Of the new factsheets and resources produced in 2014, many had yet to be accessed by museums. The reasons for this are not clear; however as the resources were created and released separately throughout the year, awareness of their availability may not be high. The 'Five Reasons Why Your Museum Should Be Doing Arts Award' resource was the most used – this was produced in hard copy and distributed by post as well as uploaded to the website.

Mae Kids in Museums yn helpu amgueddfeydd i gynllunio eu digwyddiadau mewn pedwar maes, a manteisiwyd ar hyn gan yr amgueddfeydd fel yma:

- y wefan, gyda thafleuni gwybodaeth, manylion a thempledi y gallwch eu lawrlwytho 74%
- cefnogaeth ffôn/ebost gan aelod o'r tîm Meddiannu Amgueddfeydd 95%
- rhannu gweithgareddau yn cynnwys gweithdai a chyflwyniadau 58%
- adnoddau mewn print: pecynnau i gyfranogwyr a phosteri i safleoedd 95%

Disgrifiwyd **100%** o'r cymorth a ddarparwyd fel rhywbeth 'defnyddiol' neu 'ddefnyddiol iawn' gan yr amgueddfeydd oedd yn cymryd rhan. Ymhob achos, roedd mwy o'r bobl yn disgrifio'r gefnogaeth yn 'ddefnyddiol iawn' na 'defnyddiol'.

Mae'r amgueddfeydd yn dal i wneud defnydd da o'r adnoddau print; nhw hefyd yw'r adnoddau y mae amgueddfeydd yn eu cael yn fwyaf defnyddiol – roedd mwy na 70% wedi dweud eu bod yn 'ddefnyddiol iawn'. Eleni, aeth llai o amgueddfeydd i gyfarfodydd rhannu, ond bu mwy ohonynt yn gwneud defnydd o dîm Kids in Museums i drafod eu cynlluniau a chael adborth. Gallai hyn adlewyrchu'r ffaith bod llawer iawn o bobl ar draws y wlad yn gwybod am yr ymgyrch erbyn hyn ac mae rhai amgueddfeydd sydd wedi cymryd rhan ers blyneddau lawer yn teimlo eu bod angen cefnogaeth gydag agweddau penodol o'u cynllunio yn hytrach na chyflwyniad llawn.

O'r tafleuni gwybodaeth newydd a'r adnoddau a gynhyrchwyd yn 2014, roedd llawer ohonynt heb gael eu defnyddio eto gan yr amgueddfeydd. Nid yw'r rhesymau am hyn yn amlwg; ond am fod yr adnoddau wedi eu creu a'u cyhoeddi ar wahân drwy gydol y flwyddyn, efallai nad yw llawer o bobl yn gwybod eu bod ar gael. Yr adnodd a ddefnyddiwyd fwyaf oedd 'Y Pum Rheswm Pam y Dylai eich Amgueddfa Wneud Dyfarniad Celfyddydau' – cynhyrchwyd hwn fel copi caled a'i ddosbarthu yn y post yn ogystal â'i lwytho ar y wefan.

The schools' consultation report highlighted the need to extend the schools' resources to make the benefits of taking part, the types of opportunity that could be created and the process to follow more explicit. Case studies written from a schools' perspective were suggested to be useful by teachers.

An aim for this year was to grow and develop the Kids in Museums volunteer team in Wales, in order that they can support Taking Over Museums and the workshop programme. After a successful recruitment campaign combining researching and liaising with volunteering organisations, attending recruitment events and making local contacts with appropriate organisations, 11 new volunteers were trained and have started volunteering for the project. Many of these are young people themselves, so Taking Over Museums is also supporting their cultural involvement.

Challenges:

When asked what the biggest challenge was, the most common issue for museums was organisational – timing, staffing, managing resources. Most museums appeared confident with getting colleagues on board, planning their activities and finding a group to work with, aspects that had been difficult in the past. Some museums still reported problems liaising with schools; one museum's school group cancelled shortly before the planned event.

Suggestions for aspects museums would like further help with included:

- grants to assist with their resourcing of the event or for school transport
- for Kids in Museums to network and liaise with groups such as Brownies and Guides and produce a directory of interested groups

Roedd adroddiad ymgynghori'r ysgolion yn tynnu sylw at y ffaith fod angen ymestyn adnoddau'r ysgolion i'w gwneud hi'n fwy eglur beth yw manteision cymryd rhan, y mathau o gyfleoedd allai gael eu creu a'r broses i'w dilyn. Awgrymodd yr athrawon bod astudiaethau achos a ysgrifennwyd o safbwynt ysgolion yn ddefnyddiol.

Un nod ar gyfer eleni oedd tyfu a datblygu'r tîm gwirfoddolwyr Kids in Museums yng Nghymru, er mwyn iddynt allu cefnogi Meddiannu Amgueddfedd a'r rhaglen weithdai. Yn dilyn ymgyrch recriwtio llwyddiannus oedd yn cyfuno ymchwilio a chysylltu â sefydliadau gwirfoddolwyr; mynd i ddigwyddiadau recriwtio a gwneud cysylltiadau yn lleol gyda sefydliadau priodol, hyfforddwyd 11 o wirfoddolwyr newydd ac maent wedi dechrau gwirfoddoli ar gyfer y prosiect. Mae llawer o'r rhain yn bobl ifanc eu hunain, felly mae Meddiannu Amgueddfeydd yn cefnogi eu cyfranogaeth ddiwylliannol hefyd.

Heriau:

Pan ofynnwyd beth oedd y sialens fwyaf, y broblem fwyaf cyffredin i amgueddfeydd oedd y rhai trefniadol – amseru, staffio, rheoli adnoddau. Roedd y mwyafrif o amgueddfeydd yn ymddangos yn hyderus o ran cael cydweithwyr i gytuno, cynllunio eu gweithgareddau a chanfod grŵp i weithio â nhw. Roedd y rhain yn agweddau oedd wedi bod yn anodd yn y gorffennol. Roedd rhai amgueddfeydd yn dal i gyfeirio at broblemau gyda chysylltu ag ysgolion; canslodd un grŵp ysgol ar fyr rybudd cyn y digwyddiad.

Rhai o'r awgrymiadau am agweddau y byddai amgueddfeydd yn hoffi rhagor o gymorth â nhw:

- grantiau i helpu i dalu am y digwyddiad neu i gael cludiant ysgol
- bod Kids in Museums yn rhwydweithio a chysylltu gyda grwpiau megis y Brownis a'r Geidiaid ac yn cynhyrchu cyfeirlyfr o grwpiau sydd â diddordeb

SUMMARY

Taking Over Museums continues to be a hugely popular event, with more museums creating more opportunities for children and young people than ever before. Issues with the perception of what is required and confidence to get involved have been vastly reduced, with museums very clear on the worth of their event and how to make it happen. The message that Taking Over Museums is a concept rather than a fixed event is starting to take root; events are being developed into much larger projects which facilitate children and young people's participation.

More and more children are having a positive experience of being in a museum, gallery or archives due to Taking Over Museums, and for a significant number it is the first contact they ever have with a heritage organisation. There is evidence of museums' ambitions to reach new audiences and support those children who will benefit from the experience most. In children, the effects of taking part on their self-esteem and general awareness are hugely encouraging.

The success of Taking Over Museums could be rolled out in other organisations across the arts, including libraries. Kids in Museums is keen to take this forward and facilitate the sharing of learning between organisations in order that more children can benefit from the new opportunities created.

CRYNODEB

Mae Meddiannu Amgueddfeydd yn dal i fod yn ddigwyddiad hynod o boblogaidd, gyda mwy o amgueddfeydd yn creu mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc nag erioed o'r blaen. Mae problemau gyda'r syniad o beth sy'n ofynnol a'r hyder i gymryd rhan wedi gostwng yn fawr am fod amgueddfeydd yn gwybod yn glir iawn erbyn hyn mor werthfawr yw eu digwyddiad a sut i wneud iddo ddigwydd. Mae pobl yn dechrau deall y neges bod Meddiannu Amgueddfeydd yn syniad yn hytrach na digwyddiad pendant na allwch ei newid; mae gweithgareddau'n cael eu datblygu'n brosiectau llawer mwy sy'n hybu cyfranogaeth gan blant a phobl ifanc.

Mae nifer gynyddol o blant yn cael profiad positif o fod mewn amgueddfa, oriel neu archifau diolch i'r gweithgareddau Meddiannu Amgueddfeydd, ac i nifer sylweddol ohonynt, dyma'r cysylltiad cyntaf maent yn ei gael gyda safle treftadaeth. Gwelwyd tystiolaeth o obeithion amgueddfeydd i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac i gefnogi'r plant hynny a fyddai'n elwa fwyaf o'r profiad. Mewn plant, mae effeithiau cymryd rhan ar eu hunan barch a'u hymwybyddiaeth cyffredinol yn hynod o anogol.

Gellid cyflwyno llwyddiant Meddiannu Amgueddfeydd mewn sefydliadau eraill yn y celfyddydau, gan gynnwys llyfrgelloedd. Mae Kids in Museums yn awyddus i ddatblygu hyn a hwyluso'r broses o rannu dysgu rhwng sefydliadau er mwyn i fwy o blant elwa o'r cyfleoedd newydd y mae hyn yn eu creu.

RECOMMENDATIONS

For next year's project, the recommendations are:

- Continue to hold sharing meetings in the North and South, but also investigate how to encourage more isolated museums in central Wales
- Sharing meetings should target new museums and other forms of support should continue to be provided to museums with more experience i.e. phone and email
- Promote new resources more – remind people that they are available and encourage them to refer to them, not just at the start of the project but throughout
- Widely spread the #morethanaday message and work with individual venues to help them embed the principles of Taking Over Museums throughout their organisation; specifically this will include supporting museums to establish youth panels
- Further support the involvement of archives and heritage sites and roll out the Taking Over Museums model to libraries and other Arts organisations
- Signposting and networking with potential interested parties, including schools
- Extend resources for schools to more explicitly highlight curriculum links, benefits to schools, case studies from a school perspective
- Target Communities First areas more and develop resources to support this
- Further recruitment and development of volunteers

ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion ar gyfer prosiect y flwyddyn nesaf:

- Parhau i gynnal cyfarfodydd rhannu yn y Gogledd a'r De, ond hefyd archwilio sut i annog amgueddfeydd mwy anghysbell yng nghanolbarth Cymru
- Dylai cyfarfodydd rhannu dargedu amgueddfeydd newydd a dylid parhau i roi mathau eraill o gefnogaeth i amgueddfeydd sydd â mwy o brofiad h.y. ffôn ac ebost
- Hybu adnoddau newydd fwy – atgoffa pobl eu bod ar gael a'u hannog i gyfeirio atynt, nid yn unig ar ddechrau'r prosiect ond drwy gydol y prosiect hefyd
- Lledaenu'r neges #mwynadiwrmod yn eang a gweithio gyda lleoliadau unigol i'w helpu i gynnwys egwyddorion Meddiannu Amgueddfeydd drwy eu sefydliadau cyfan; bydd hyn yn cynnwys yn arbennig gefnogi amgueddfeydd i sefydlu panelau ieuenctid
- Cefnogi cyfranogaeth archifau a safleoedd treftadaeth ymhellach a chyflwyno'r model Meddiannu Amgueddfeydd i lyfrgelloedd a sefydliadau Celfyddydol eraill
- Dangos y ffordd a rhwydweithio gyda phartïon allai fod â diddordeb, gan gynnwys ysgolion
- Ymestyn adnoddau i ysgolion er mwyn tynnu sylw'n gliriach at gysylltiadau â'r cwricwlwm, manteision i ysgolion, astudiaethau achos o safbwynt ysgolion
- Targedu ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf fwy a datblygu adnoddau i gefnogi hyn
- Recriwtio a datblygu gwirfoddolwyr ymhellach

LIST OF MUSEUMS TAKING PART IN 2014

RHESTR O'R AMGUEDDFEYDD FU'N CYMRYD RHAN YN 2014

1940s Swansea Bay / Bae Abertawe 1940au
Abergavenny Museum / Amgueddfa y Fenni
Big Pit National Coal Museum / Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru
Butetown History & Arts Centre Cardiff / Canolfan Hanes & Chelf Butetown
Caernarfon Castle / Castell Caernarfon
Ceredigion Museum / Amgueddfa Ceredigion
Cilgerran Castle / Castell Cilgerran
Criccieth Castle / Castell Cricieth
Denbigh Castle / Castell Dinbych
Dinefwr Park – National Trust / Parc Dinefwr – yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Dylan Thomas Centre / Canolfan Dylan Thomas
Firing Line: Cardiff Castle Museum of the Welsh Soldier / Firing Line: Amgueddfa'r Milwr Cymreig, Castell Caerdydd
Flintshire County Council Museums Service / Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir y Fflint
Glamorgan Archives / Archifau Morgannwg
Gwynedd Museum and Art Gallery, Bangor / Amgueddfa ac Oriol Gwynedd, Bangor
Harlech Castle / Castell Harlech
Llandudno Museum / Amgueddfa Llandudno
Llanelly House / Plas Llanelly
Llangollen Museum / Amgueddfa Llangollen
Narberth Museum / Amgueddfa Arberth
National Museum Cardiff / Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
National Roman Legion Museum / Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru
National Slate Museum / Amgueddfa Lechi Cymru
National Waterfront Museum / Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
National Wool Museum / Amgueddfa Wlân Cymru
Newport Museum and Art Gallery / Amgueddfa ac Oriol Gelf Casnewydd
Oriel Ynys Môn / Oriol Ynys Môn
Parc Howard Museum & Art Gallery / Amgueddfa ac Oriol Gelf Parc Howard
Pontypool Museum / Amgueddfa Pont-y-pŵl
Royal Mint Museum / Amgueddfa'r Bathdy Brenhinol
Royal Welch Fusiliers Museum / Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig
Segontium Roman Fort / Caer Rufeinig Segontium
St Fagans National History Museum / Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru
Swansea Museum / Amgueddfa Abertawe
Techniquet Glyndŵr / Techniquet Glyndŵr
Tenby Museum and Art Gallery / Amgueddfa ac Oriol Gelf Dinbych-y-Pysgod
Oriel Colwyn / Oriol Colwyn
Wrexham County Borough Museum / Amgueddfa Wrecsam



www.kidsinmuseums.org.uk

Taking Over Museums / Meddiannu Amgueddfeydd
Kids in Museums 2014

REGISTERED CHARITY NUMBER / RHIF ELUSEN GOFRESTREDIG | 123658